# SL(5)535 – Datganiad o fygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd y coronafeirws

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 4 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â digwyddiadau, ymgynulliadau ac eiddo yng Nghymru os bydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd y coronafeirws.

Mae paragraff 26 o'r Atodlen honno yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud datganiad o dan y paragraff hwnnw os ydyn nhw o'r farn:

(a) mae ymddangosiad neu drosglwyddiad coronafeirws yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru, a

(b) bydd y pwerau yn yr Atodlen yn fodd effeithiol o— (i) atal ymddangosiad neu drosglwyddiad coronafeirws, amddiffyn rhagddo, ei oedi neu ei reoli yng Nghymru, neu (ii) hwyluso'r defnydd mwyaf priodol o bersonél ac adnoddau meddygol neu frys yn Cymru.

Cyn gwneud datganiad o dan baragraff 26 o Atodlen 22, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Prif Swyddog Meddygol neu un o Ddirprwy Brif Swyddogion Meddygol Cymru.

Ar ôl dod i'r farn a nodir uchod ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud y datganiad hwn o dan baragraff 26 o Atodlen 22.

Effaith y datganiad yw galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt gan Ran 4 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Mae Rhan 4 o Atodlen 22 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â gwahardd neu gyfyngu digwyddiadau neu ymgynulliadau ac â chau eiddo neu osod cyfyngiadau ar bobl sy'n dod i mewn i eiddo neu'n aros y tu mewn i eiddo.

Gellir gwneud neu amrywio'r cyfarwyddiadau o'r amser y gwnaed y datganiad hwn a hyd nes y dirymir y datganiad. Cyfeirir at y cyfnod sy'n dechrau â gwneud y datganiad hwn a'i ddirymu fel "cyfnod ymateb iechyd cyhoeddus" yn Atodlen 22 i Ddeddf Coronafeirws 2020.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r datganiad hwn:

**1. Hygyrchedd y gyfraith**

Nodwn fod y datganiad hwn wedi sbarduno argaeledd pwerau sylweddol y gellir eu defnyddio bellach gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Nodwn hefyd y gall Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hyn trwy ddim ond roi cyfarwyddyd (nid yw cyfarwyddydau bob amser yn hawdd dod o hyd iddynt ar-lein) a'i bod yn drosedd methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath heb esgus rhesymol.

Felly mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn cael gwybod am y cyfarwyddydau hyn, a'r canlyniadau yn sgil methu â chydymffurfio â nhw.

Bydd hefyd yn hanfodol i'r cyhoedd ddeall, a pheidio â chael eu drysu gan y berthynas rhwng:

- cyfarwyddydau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020, a
- rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (mae nifer ohonynt wedi'u gwneud, a'u gosod gerbron y Cynulliad, mewn ymateb i'r coronafeirws).

Rydym yn deall nad oedd Gweinidogion Cymru, ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, wedi arfer y pwerau i wneud cyfarwyddydau o dan Atodlen 22.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Ebrill 2020**